| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **13 RHAGFYR 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHEOLI RISG STRATEGOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **I DIWEDDARU'R AELODAU** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **EINIR WYN THOMAS<br>PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** |
| **GWEITHREDIAD:** | **DIM EI ANGEN** |

**CEFNDIR**

Bydd aelodau'n ymwybodol fod blaenoriaeth wedi ei roi i reoli risg ar sail gorfforaethol yn ystod y flwyddyn yma. Bwriad yr adroddiad yma yw i diweddaru'r aelodau ar y cynnydd; i gyflwyno'r gofrestr risg cychwynnol ac i amlinellu gweithrediadau'r dyfodol.

**CYNNYDD**

Amlinellir y cynnydd hyd at 14 Tachwedd yn fy adroddiad i'r Bwrdd Gwella ar 14 Tachwedd.

**COFRESTR DDRAFFT RISG CORFFORAETHOL**

Y gofrestr ddrafft risg corfforaethol a cheir yn atodiad A yw'r fersiwn a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwella ar 14 Tachwedd wedi ei gywiro o'r hebgoriad ddamweiniol o un o'r risgiau.

**GWAITH YN MYND YN EI FLAEN**

Ers 14 Tachwedd, cynhaliwyd gweithdai cynorthwyedig hefo pob gwasanaeth i gadarnhau eu risgiau gwasanaeth ac i safoni'r broses a'r driniaeth ar draws y Cyngor. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdy cynorthwyedig hefo GAS i herio'r risgiau yn y gofrestr ddrafft, i nodi perchnogaeth risgiau ac i gytuno ar brosesau ar gyfer cynllunio gweithrediadau ac arolygiad yn y dyfodol gan GAS. Cytunwyd byddai pob risg yn cael ei bennu i swyddog arwain - fel arfer aelod o'r GAS. Cytunwyd hefyd dylai rheoli risg fod ar sail ddeinamig, gyda risgiau sylweddol newydd a newidiadau yn cael ei rhoi i sylw swyddogion, grwpiau a phwyllgorau perthnasol fel maent yn codi yn hytrach nag ar sail chwarterol.

**STATWS**

Mae'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ffurfioli'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol i apwyntio pwyllgorau archwilio gyda Rheoli Risg yn rhan o'u cylch gwaith.

“81 Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio

**(1)** Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor (“pwyllgor archwilio”) -

- **(a)** i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
- **(b)** i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
- **(c)** i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,
- **(d)** i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- **(e)** i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- **(f)** i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

**(2)** Caiff awdurdod lleol roi i'w bwyllgor archwilio unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn addas i'w harfer gan y cyfryw bwyllgor.

**(3)** Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau.”

**CASGLIAD**

Mae cynnydd da wedi’i wneud ar weithredu’r fframwaith rheoli risg corfforaethol a darparu’r gofrestr risg ddrafft. Mae’r gofrestr risg yn dal yn waith sy’n mynd yn ei flaen, a bydd nawr yn cael ei arolygu, diweddaru a’r cynlluniau gweithredu’n cael eu cwblhau ar sail y gweithdy GAS a’r gweithdai hefo’r gwasanaethau a gynhaliwyd yn ystod Tachwedd. Bydd y gofrestr wedyn yn ffurfio rhan o’r adrodd chwarterol i’r Comisiynwyr/Pwyllgor Gwaith a bydd yn dod gerbron y pwyllgor yma fel rhan o’i raglen gwaith ffurfiol.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)**

**7 RHAGFYR 2011**

**ATODIAD A**

# BWRDD GWELLA 14 Tachwedd 2011

## COFFRESTR RISG CORFFORAETHOL
## ADRODDIAD PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)

**Rheswm am yr Adroddiad**

1. I ddod a'r Cofrestr Risg Corfforaethol (CRC) i sylw'r Bwrdd Gwella, i ystyried y risgiau strategol a wynebir gan y Cyngor.

**Cefndir**

2. Fel rhan o'r trefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol da mae'n angenrheidiol i'r Cyngor gael datganiad clir o'i sefyllfa cyffredinol yn ymwneud â risgiau corfforaethol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

3. Adnabyddwyd gan rheoleiddwyr fel gwendid oedd angen rhoi sylw iddo, y diffyg trefniadau rheoli risg ar draws yr awdurdod - roedd wedi cael blaenoriaeth isel yn y Cynllun Adfer yn 2010/11. Fodd bynnag, cytunwyd byddai'n flaenoriaeth gorfforaethol yn y flwyddyn gyfredol i gynorthwyo'r broses gadarn gwneud penderfyniadau, dan arweinyddiaeth y Comisiynwyr.

4. Seilir y drafft CRC cyfredol ar nifer o themâu yn deillio o'r trefniadau cyfredol monitro perfformiad, gweithdai corfforaethol a thrafodaethau, ac ychwanegu atynt Themâu Gwella'r Comisiynwyr. Mae'n cymryd sylw o adnoddiadau'r rheoleiddwyr a'r trafodaethau arweiniodd i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'n cynnwys risgiau gwasanaeth adnabyddedig, risgiau adnabyddwyd gan Iechyd a Diogelwch, Eiddo, Cyllid, Archwilio Mewnol a'r gwasanaethau corfforaethol arall. Fe'i trafodwyd a'i gymedroli gan weithdy o'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ac uwch reolwyr arall.

5. Y bwriad yw bod y CRC yn adnabod y prif risgiau'n wynebu'r Cyngor i alluogi'r comisiynwyr, aelodau etholedig ac uwch reolwyr wneud penderfyniadau gwybodus a blaenoriaethu gweithrediadau, gan ystyried y risgiau lefel uchel yma. Y broses dilynwyd oedd adnabod y risg ac wedyn rhoi sylw iddo drwy'r amgylchedd rheoli a'r mesurau lliniaru yn eu lle ne y'i cynlluniwyd o fewn y Cyngor. Canlyniad hyn fydd sgôr risg gweddilliol a ddylai ddangos effeithiolrwydd y rheolaethau sy'n eu lle i reoli'r risg.

**Materion Perthnasol**

6. Ar hyn o bryd mae 15 risg yn y CRC drafft, a bydd y cyfan yn cael eu neilltuo i aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol.

7. O reidrwydd, cofrestr gychwynnol yw'r fersiwn yma o'r CRC. Wrth i'r hyfforddiant Rheoli Risg cael ei gyflwyno oddi fewn gwasanaethau, a'r drafodaeth gorfforaethol cael ei ddatblygu yn GAS, daw'r gofrestr yn fwy cadarn. Bydd y gwaith diweddar ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol cael ei fwydo i mewn iddo hefyd.

8. Ar y cam nesaf bydd y GAS yn adnabod gweithrediadau lliniaru'r Cyngor a fyddai'n symud nifer o'r risgiau o flaenoriaeth uchel i flaenoriaeth ganolog, er fydd y CRC yn cadw nifer o eitemau blaenoriaeth uchel. Mae rhai mannau, fel gwasanaethau Oedolion a Phlant, lle fydd elfennau anrhagweladwy bob tro yn bodoli a fydd yn cael blaenoriaeth uchel ddim ots pa mor dda mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli. Ar gyfer rhain, mae'n bwysig gallu dangos rheolaeth gadarn, dull rhagweithiol tuag at liniaru'r risgiau a phroses monitro cadarn.

9. Mewn rhai meysydd, fel cydweithio neu weithio mewn partneriaeth a rheoli gwastraff, mae angen i’r Cyngor rhoi dibyniaeth ar eraill y tu allan i’r Cyngor, a bydd hyn yn cael effaith ar sut y rheolir y risg. Mae’r Orsaf Bŵer Niwclear newydd posibl ag agenda Llywodraeth y DU ar ddiwygio’r system Lles yn risgiau newydd yn y maes yma. Dylai’r flaenoriaeth o fewn yr awdurdod fod i ganolbwyntio ar beth y gall ei gyflawni yn nhermau rheolaeth gadarn a lliniaru risgiau o fewn meysydd cyfrifoldeb y Cyngor. Mae’r risgiau penodol yma, mwya' thebyg, am barhau yn flaenoriaeth oherwydd eu heffaith posibl a bydd angen eu monitro’n effeithiol.

10. Mae’n bwysig nodi fod risgiau yn debygol o newid fel mae amgylchiadau’n newid a nodi’r sefyllfa ar un cyfnod o amser mae’r CRC. Y bwriad yw bod risgiau’n cael eu rheoli’n ddynamig a newidiadau’n dod i sylw swyddogion perthnasol ac aelodau fel bo’r angen. Parheir i adnewyddu’r CRC yng ngoleuni newid a’i hadolygu’n chwarterol. Mae perchenogion risg a adnabyddwyd hefo cyfrifoldeb i sicrhau fod y gofrestr yn parhau’n eglur a pherthnasol. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd monitro ac adolygu’r CRC bydd y Bwrdd Gwella neu’r Pwyllgor Gwaith yn ystyried adroddiadau’n chwarterol yn y dyfodol.

11. Y Pwyllgor Archwilio fydd y Pwyllgor sy’n adolygu a herio’r CRC a chadernid y broses yn unol â’r Mesur Llywodraeth Leol newydd.

**Rhesymau am Argymhellion**

12. I sicrhau fod y risgiau strategol a wynebai’r Cyngor yn cael eu hadnabod a’u rhannu ar draws yr awdurdod.

**Goblygiadau Cyllidol a Chyfreithiol**

13. Un o fuddiannau o adnabod risgiau yw gallwn gymryd mesurau lliniaru os yn berthnasol ac, o ganlyniad, gall hawliadau llwyddiannus yn erbyn y Cyngor cael eu hosgoi yn gyfan gwbl, neu eu lleihau.

14. Nid oes goblygiadau Cyllidol uniongyrchol yn codi o’r adroddiad yma, Defnyddir y CRC i ddylanwadu dyrannu cyllideb ym mhrosesau cyllideb a chynllunio’r Cyngor. Fe’i defnyddir i arwain y Cynllun Archwilio Mewnol ac mae’n ffurfio rhan bwysig o drefniadau llywodraethu ar gyfer y Cyngor.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir i’r Bwrdd Gwella nodi’r cynnydd ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

Einir Wyn Thomas
Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)
8 Tachwedd 2011

Atodir yr Atodiad canlynol*:*
*Atodiad A – Cofrestr Risg Corfforaethol*